# RHESTR O WELLIANNAU WEDI'U DIDOLI
# MARSHALLED LIST OF AMENDMENTS

# Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru)
# The Environmental Protection (Single-use Plastic Products) (Wales) Bill

Mae'r gwelliannau â * ar eu pwys yn rhai newydd neu'n rhai sydd wedi'u haddasu
Amendments marked * are new or have been altered

---

Mae gwelliannau a nodir ag 'R' yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant cofrestradwy o dan Reol Sefydlog 2 neu fuddiant perthnasol o dan Reolau Sefydlog 13 neu 17 wrth gyflwyno'r gwelliant.
Amendments marked 'R' mean that the Member has declared either a registrable interest under Standing Order 2 or relevant interest under Standing Orders 13 or 17 when tabling the amendment.

---

Caiff y Bil ei ystyried yn y drefn a ganlyn—
The Bill will be considered in the following order—

| | |
|---|---|
| Sections 1 – 2 | Adrannau 1 – 2 |
| Schedule 1 | Atodlen 1 |
| Sections 3 – 23 | Adrannau 3 - 23 |

---

**Janet Finch-Saunders** **25**

Section 1, page 1, line 12, after 'not', insert 'conceived,'.

Adran 1, tudalen 1, ar ddechrau llinell 14, mewnosoder 'ddyfeisio, ei'.

Explanatory text/Testun esboniadol–

*Brings into line with Scottish legislation.*

*Yn cysoni â deddfwriaeth yr Alban.*

**Delyth Jewell** **61**

Section 1, page 1, line 12, after 'not', insert 'conceived,'.

Adran 1, tudalen 1, ar ddechrau llinell 14, mewnosoder 'ddyfeisio, ei'.

**Delyth Jewell** **62**

Section 1, page 1, line 13, after 'was', insert 'conceived,'.

Adran 1, tudalen 1, llinell 14, ar ôl 'y'i' mewnosoder 'dyfeisiwyd, y'i'.

**Janet Finch-Saunders** **26**

Section 1, page 1, line 15, leave out ', and includes a material consisting of a polymer mixed with additives or which has other substances added to it' and insert 'as defined in Article 3(5) of Regulation (EC) No 1907/2006 concerning the Registration, Evaluation, Authorisation and Restriction of Chemicals (REACH), to which additives or other substances may have been added, and which can function as a main structural component of final products, with the exception of natural polymers that have not been chemically modified'.

Adran 1, tudalen 1, llinell 17, hepgorer ', ac mae'n cynnwys deunydd ar ffurf polymer sydd wedi ei gymysgu ag ychwanegion neu sydd â sylweddau eraill wedi eu hychwanegu ato' a mewnosoder 'fel y'i diffinnir yn Erthygl 3(5) o Reoliad (EC) Rhif 1907/2006 ynghylch Cofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu ar Gemegau (REACH), y gall ychwanegion neu sylweddau eraill fod wedi eu hychwanegu ato, ac sy'n gallu gweithredu fel prif gydran strwythurol cynhyrchion terfynol, ac eithrio polymerau naturiol nad ydynt wedi eu haddasu yn gemegol'.

Explanatory text/Testun esboniadol–

*Aligns the definition of "plastic" to the definition included in SI 2020/971 and SSI 2021/410. Yn cysoni'r diffiniad o "plastig" â'r diffiniad yn OS 2020/971 and SSI 2021/410.*

**Julie James** **1**

Section 1, page 1, line 15, after 'polymer,', insert 'other than an adhesive, paint or ink,'.

Adran 1, tudalen 1, llinell 17, ar ôl 'polymer' yn y lle cyntaf y mae'n ymddangos, mewnosoder ', ac eithrio adlyn, paent neu inc'.

**Julie James** **2**

Section 1, page 1, line 16, leave out 'mixed with additives or which' and insert 'that'.

Adran 1, tudalen 1, llinell 18, hepgorer 'sydd wedi ei gymysgu ag ychwanegion neu'.

**Janet Finch-Saunders** **27**

Section 1, page 1, line 17, leave out subsection (5).

Adran 1, tudalen 1, llinell 20, hepgorer is-adran (5).

**Delyth Jewell** **63**

Section 1, page 1, after line 23, insert—

'(7) For the purposes of subsection (3), the reference to "more than once (or on more than one occasion) before being disposed of" relates to individual plastic products, whether alone or packed, in any form, as a multiple pack of plastic products.'.

Adran 1, tudalen 1, ar ôl llinell 25, mewnosoder—

'(7) At ddibenion is-adran (3), mae'r cyfeiriad at "fwy nag unwaith (neu ar fwy nag un achlysur) cyn ei waredu" yn ymwneud â chynhyrchion plastig unigol, pa un a ydynt ar eu pen eu hunain neu wedi eu pacio, ar unrhyw ffurf, fel aml-becyn o gynhyrchion plastig.'.

**Julie James** **3**

Section 2, page 1, line 29, after 'of', insert 'one or more of the following'.

Adran 2, tudalen 1, llinell 30, ar ôl 'ag', mewnosoder 'un neu ragor o'r canlynol'.

**Julie James** **4**

Section 2, page 1, line 31, leave out 'particular type of' and insert 'a particular type of the'.

Adran 2, tudalen 1, llinell 32, hepgorer 'o gynnyrch' a mewnosoder 'o'r cynnyrch'.

**Julie James** **5**

Section 2, page 1, after line 31, insert—

'(iii) the circumstances in which the product (or a particular type of the product) may be offered for supply.'.

Adran 2, tudalen 1, ar ôl llinell 32, mewnosoder—

'(iii) yr amgylchiadau y caniateir cynnig cyflenwi'r cynnyrch (neu fath penodol o'r cynnyrch) odanynt.'.

**Julie James** **6**

Section 2, page 2, after line 2, insert—

'(3) The Welsh Ministers must prepare and publish guidance about—

(a) the single-use plastic products that are prohibited under this Act;

(b) the application of any exemptions listed in column 2 of the Table in paragraph 1 of the Schedule.'.

Adran 2, tudalen 2, ar ôl llinell 2, mewnosoder—

'(3) Rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi canllawiau ynghylch—

(a) y cynhyrchion plastig untro sydd wedi eu gwahardd o dan y Ddeddf hon;

(b) cymhwyso unrhyw esemptiadau a restrir yng ngholofn 2 o'r Tabl ym mharagraff 1 o'r Atodlen.'.

**Julie James** **18**

Schedule 1, page 11, Table 1, line 15, column 2, leave out 'where—

(a) P is a person lawfully conducting or involved in lawfully conducting a retail pharmacy business,

(b) where P is not a pharmacist, the individual selling the straw on behalf of P is a pharmacist or an individual acting under the supervision of a pharmacist, and

(c) the person to whom P supplies the straw declares to P'

and insert 'who is lawfully conducting a retail pharmacy business where—

(a) P—

(i) is a sole trader and the transaction is carried out by P personally, or is carried out on behalf of P by a pharmacist or an individual acting under the supervision of a pharmacist (including P), or

(ii) is not a sole trader and the transaction is carried out on behalf of P by a pharmacist or an individual acting under the supervision of a pharmacist, and

(b) the consumer to whom P supplies the straw declares'.

Atodlen 1, tudalen 11, Tabl 1, llinell 19, colofn 2, hepgorer ', pan fo—

(a) P yn berson sy'n cynnal yn gyfreithlon, neu sy'n ymwneud â chynnal yn gyfreithlon, fusnes fferyllfa fanwerthu,

(b) pan na fo P yn fferyllydd, fod yr unigolyn sy'n gwerthu'r gwelltyn ar ran P yn fferyllydd neu'n unigolyn sy'n gweithredu o dan oruchwyliaeth fferyllydd, a

(c) y person'

a mewnosoder 'sy'n cynnal yn gyfreithlon fusnes fferyllfa fanwerthu—

(a) pan—

(i) fo P yn unig fasnachwr a'r trafodiad yn cael ei gynnal gan P ei hun, neu'n cael ei gynnal ar ran P gan fferyllydd neu unigolyn sy'n gweithredu o dan oruchwyliaeth fferyllydd (gan gynnwys P), neu

(ii) na fo P yn unig fasnachwr a'r trafodiad yn cael ei gynnal ar ran P gan fferyllydd neu unigolyn sy'n gweithredu o dan oruchwyliaeth fferyllydd, a

(b) pan fo'r defnyddiwr'.

**Julie James** **19**

Schedule 1, page 11, Table 1, line 30, column 2, leave out 'person' at the second place it appears and insert 'consumer'.

Atodlen 1, tudalen 11, Tabl 1, llinell 35, colofn 2, hepgorer 'person' a mewnosoder 'defnyddiwr'.

**Julie James** **20**

Schedule 1, page 11, Table 1, line 33, column 2, after 'P', insert ', or an individual providing care to A on behalf of P,'.

Atodlen 1, tudalen 11, Tabl 1, llinell 38, colofn 2, ar ôl 'P', mewnosoder ', neu unigolyn sy'n darparu gofal i A ar ran P,'.

**Julie James** **21**

Schedule 1, page 11, Table 1, line 37, column 2, leave out 'person' at the second place it appears and insert 'consumer'.

Atodlen 1, tudalen 12, Tabl 1, llinell 3, colofn 2, hepgorer 'person' a mewnosoder 'defnyddiwr'.

**Julie James** **22**

Schedule 1, page 11, Table 1, line 38, column 2, leave out 'to P that they need the straw, or another person' and insert 'that they need the straw, or an individual'.

Atodlen 1, tudalen 12, Tabl 1, llinell 4, colofn 2, hepgorer 'i P ei fod ef angen y gwelltyn, neu fod person arall' a mewnosoder 'ei fod angen y gwelltyn, neu fod unigolyn'.

**Delyth Jewell** **81**

Schedule 1, page 11, Table 1, column 2, after line 44, insert—

'*Exemption 5*

The manufacture of a straw—

(a) to be used for a health or disability reason, and

(b) with the intention of that straw being supplied under Exemptions 1, 2, 3 or 4.'.

Atodlen 1, tudalen 12, Tabl 1, llinell 11, colofn 2, ar ôl 'feddygol.', mewnosoder—

'*Esemptiad 5*

Gweithgynhyrchu gwelltyn—

(a) i'w ddefnyddio am reswm sy'n ymwneud ag iechyd neu anabledd, a

(b) â'r bwriad o gyflenwi'r gwelltyn hwnnw o dan Esemptiad 1, 2, 3 neu 4.'.

**Delyth Jewell** **82**

Schedule 1, page 12, Table 1, line 27, column 2, leave out '(d) medicinal products or listed appliances supplied in accordance with a prescription issued by a health professional;'.

Atodlen 1, tudalen 12, Tabl 1, llinell 38, colofn 2, hepgorer '(d) cynhyrchion meddyginiaethol neu gyfarpar rhestredig a gyflenwir yn unol â phresgripsiwn a ddyroddwyd gan broffesiynolyn iechyd;'.

**Delyth Jewell** **83**

Schedule 1, page 12, Table 1, column 2, after line 45, insert—

'*Exemption 4*

The manufacture of a carrier bag intended for supply under Exemptions 1, 2, or 3.'.

Atodlen 1, tudalen 13, Tabl 1, llinell 14, colofn 2, ar ôl '36).', mewnosoder—

'*Esemptiad 4*

Gweithgynhyrchu bag siopa y bwriedir ei gyflenwi o dan Esemptiad 1, 2 neu 3.'.

**Janet Finch-Saunders** **54**

Schedule 1, page 13, Table 1, leave out lines 1 to 11.

Atodlen 1, tudalen 13, Tabl 1, hepgorer llinellau 17 hyd at 28.

Explanatory text/Testun esboniadol–

*Removes reference to oxo-degradable plastic.*

*Yn dileu cyfeiriad at blastig ocso-ddiraddiadwy.*

**Janet Finch-Saunders** **55**

Schedule 1, page 13, Table 1, line 2, column 2, insert 'Any product made of oxo-biodegradable plastic.'.

Atodlen 1, tudalen 13, Tabl 1, llinell 18, colofn 2, mewnosoder 'Unrhyw gynnyrch a wnaed o blastig ocso-fioddiraddadwy.'.

Explanatory text/Testun esboniadol–

*Exempts plastics that are oxo-biodegradable and do not leave microplastics.*

*Yn eithrio plastigion sy'n ocso-fioddiradadwy ac nad ydynt yn gadael microblastigau.*

**Delyth Jewell** **84**

Schedule 1, page 13, Table 1, line 9, column 1, after 'supplied', insert 'or manufactured'.

Atodlen 1, tudalen 13, Tabl 1, llinell 24, colofn 1, ar ôl 'cyflenwir', mewnosoder 'neu y gweithgynhyrchir'.

**Julie James** **23**

Schedule 1, page 13, after line 14, insert—

> '"carrier bag" ("*bag siopa*") means a bag, with or without handles, supplied for the purpose of carrying items sold or provided with the bag (and see also section 1(6));'.

Atodlen 1, tudalen 13, ar ôl llinell 29, mewnosoder—

> 'ystyr "bag siopa" ("*carrier bag*") yw bag, gyda handlenni neu hebddynt, a ddarperir at ddiben cludo eitemau a werthwyd neu a ddarparwyd gyda'r bag (a gweler hefyd adran 1(6));'.

**Janet Finch-Saunders** **56**

Schedule 1, page 13, line 16, leave out ', designed to be used for cosmetic applications or personal or animal hygiene'.

Atodlen 1, tudalen 14, llinell 27, hepgorer ', a ddyluniwyd at ddibenion defnydd cosmetig neu ar gyfer hylendid personol neu hylendid anifeiliaid'.

Explanatory text/Testun esboniadol–

*Brings into line with the definition used in England to prevent loopholes.*

*Yn cysoni â'r diffiniad a ddefnyddir yn Lloegr i osgoi bylchau.*

**Janet Finch-Saunders** **57**

Schedule 1, page 14, after line 6, insert—

'(e) a dietician, occupational therapist or physiotherapist registered in the register maintained under Article 5 of the Health and Social Work Professions Order 2001 (S.I. 2022/254) (see Article 5.5);'.

Atodlen 1, tudalen 15, ar ôl llinell 22, mewnosoder—

'(e) deietegydd, therapydd galwedigaethol neu ffisiotherapydd sydd wedi ei gofrestru yn y gofrestr a gynhelir o dan Erthygl 5 o Orchymyn Proffesiynau Iechyd a Gwaith Cymdeithasol 2001(O.S. 2022/254) (gweler Erthygl 5.5);'.

Explanatory text/Testun esboniadol–

*Brings into line with legislation in England.*

*Yn cysoni â deddfwriaeth yn Lloegr.*

**Delyth Jewell** **85**

Schedule 1, page 14, leave out lines 10 to 16.

Atodlen 1, tudalen 13, llinell 39, hepgorer—

'ystyr "cyfarpar rhestredig" ("listed appliance") yw cyfarpar sydd wedi ei gynnwys mewn rhestr a gymeradwyir at ddibenion, neu a wneir yn rhinwedd—

(a) adran 80 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p. 42),

(b) Erthygl 63 o Orchymyn Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Personol (Gogledd Iwerddon) 1972 (O.S. 1972/1265 (G.I. 14)),

(c) adran 2CA o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (yr Alban) 1978 (p. 29), neu

(d) adran 126 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 (p. 41);'.

**Janet Finch-Saunders** **58**

Schedule 1, page 14, after line 18, insert—

'"oxo-biodegradable plastic" ("*plastig ocso-fioddiraddadwy*") means plastic which is subject to degradation resulting from oxidative and cell-mediated phenomena, either simultaneously or successively, and which may be determined in accordance with appropriate testing standards (such as ASTM D6954) as identified by the Welsh Ministers in guidance published under section [*section to be inserted by amendment 34*];'.

Atodlen 1, tudalen 14, ar ôl llinell 37, mewnosoder—

'ystyr "plastig ocso-fioddiraddadwy" ("*oxy-biodegradable plastic*") yw plastig sy'n diraddio o ganlyniad i ffenomena ocsideiddiol cell-gyfryngol, naill ai yn gydamserol neu yn olynol, ac y gellir ei bennu yn unol â safonau profi penodol (fel ASTM D6954) fel y nodwyd gan Weinidogion Cymru mewn canllawiau a gyhoeddwyd o dan adran [*adran i'w mewnosod gan welliant 34*];'.

Explanatory text/Testun esboniadol–

*Definition is the CEN scientific definition.*

*Diffiniad gwyddonol CEN.*

**Janet Finch-Saunders** **59**

Schedule 1, page 14, leave out lines 19 to 22.

Atodlen 1, tudalen 14, hepgorer llinellau 33 hyd at 37.

Explanatory text/Testun esboniadol–

*Removes reference to oxo-degradable plastic.*

*Yn dileu cyfeiriad at blastig ocso-ddiraddiadwy.*

**Janet Finch-Saunders** **60**

Schedule 1, page 14, line 19, leave out 'containing additives which accelerate the oxidation and fragmentation of the plastic when exposed to heat or light (whether or not this is, or may be, followed by partial or complete breakdown of the material by microbial action)' and insert 'which is subject to degradation that is identified as resulting from oxidative cleavage of macromolecules'.

Atodlen 1, tudalen 14, llinell 33, hepgorer 'sy'n cynnwys ychwanegion sy'n cyflymu'r broses o ocsideiddio a darnio'r plastig wrth iddo ddod i gysylltiad â gwres neu olau (pa un a ddilynir hyn, neu y gellir dilyn hy1n, gan ddadfeiliad rhannol neu ddadfeiliad llwyr y deunydd drwy weithgarwch microbaidd ai peidio)' a mewnosoder 'sy'n diraddio o ganlyniad i holltiad ocsideiddiol macromoleciwlau'.

Explanatory text/Testun esboniadol–

*Amends the definition to the CEN scientific definition of oxo-degradable, if the material is to remain in the Bill.*

*Yn diwygio'r diffiniad i ddiffiniad gwyddonol CEN o ocso-ddiraddiadwy, os yw'r deunydd yn mynd i barhau yn y Bil.*

**Julie James** **24**

Schedule 1, page 14, line 20, leave out 'additives which accelerate' and insert 'any substance added for the purpose of accelerating'.

Atodlen 1, tudalen 14, llinell 34, hepgorer 'ychwanegion sy'n' a mewnosoder 'unrhyw sylwedd a ychwanegir at ddiben'.

**Delyth Jewell** **86**

Schedule 1, page 15, line 4, leave out paragraph 3.

Atodlen 1, tudalen 15, llinell 25, hepgorer paragraff 3.

**Janet Finch-Saunders** **28**

Page 2, after line 2, insert a new section—

**'[ ] List of manufacturers of single-use plastic products in Wales**

(1) The Welsh Ministers must maintain a list of manufacturers of single-use plastic products that operate in Wales.

(2) For the purposes of subsection (1), a manufacturer operates in Wales if they have premises in Wales that manufacture single-use plastic products.'.

Tudalen 2, ar ôl llinell 2, mewnosoder adran newydd—

**'[ ] Rhestr o weithgynhyrchwyr cynhyrchion plastig untro yng Nghymru**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru gynnal rhestr o weithgynhyrchwyr cynhyrchion plastig untro sy'n gweithredu yng Nghymru.

(2) At ddibenion is-adran (1), mae gweithgynhyrchwr yn gweithredu yng Nghymru os oes ganddo eiddo yng Nghymru sy'n gweithgynhyrchu cynhyrchion plastig untro.'.

**Julie James** **7**

Section 3, page 2, after line 10, insert—

'(2) Before making regulations under this section the Welsh Ministers must consult—

(a) local authorities;

(b) the Natural Resources Body for Wales and any other person that the Welsh Ministers consider to be concerned with promoting the protection of the environment in Wales;

(c) such persons as the Welsh Ministers consider represent the interests of producers or suppliers of single-use plastic products in Wales;

(d) such other persons as the Welsh Ministers consider appropriate.'.

Adran 3, tudalen 2, ar ôl llinell 10, mewnosoder—

'(2) Cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag—

(a) awdurdodau lleol;

(b) Corff Adnoddau Naturiol Cymru ac unrhyw berson arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn ymwneud â hybu diogelu'r amgylchedd yng Nghymru;

(c) y personau hynny y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn cynrychioli buddiannau cynhyrchwyr neu gyflenwyr cynhyrchion plastig untro yng Nghymru;

(d) y personau eraill hynny y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.'.

**Janet Finch-Saunders** **29**

Section 3, page 2, after line 10, insert—

'(2) Regulations made under subsection [*existing unnumbered subsection*] must not come into force until at least 12 months has passed since the date on which those Regulations are made.'.

Adran 3, tudalen 2, ar ôl llinell 10, mewnosoder—

'(2) Ni chaiff rheoliadau a wneir o dan is-adran [*is-adran bresennol sydd heb ei rhifo]* ddod i rym hyd nes bod o leiaf 12 mis wedi mynd heibio ers y dyddiad y gwnaed y Rheoliadau hynny.'.

**Janet Finch-Saunders** **30**

Section 3, page 2, after line 10, insert—

'(2) Before making regulations to which subsection (4) applies, the Welsh Ministers must—

(a) carry out a life cycle analysis in relation to materials that are likely to be used as replacements for a single-use plastic product,

(b) assess the costs and disbenefits of switching to materials that are alternatives to single-use plastic products, and

(c) undertake a regulatory impact assessment.

(3) In complying with their duty under subsection (2), the Welsh Ministers must clearly state how any analysis and assessment relates specifically to Wales.

(4) This subsection applies to regulations under this section that will amend the Schedule—

(a) to add a product to column 1 of the Table in paragraph 1;

(b) to remove an exemption from column 2 of the Table in paragraph 1;

(c) to add a definition to, or remove a definition from, paragraph 2 or to amend a definition in that paragraph.'.

Adran 3, tudalen 2, ar ôl llinell 10, mewnosoder—

'(2) Cyn gwneud rheoliadau y mae is-adran (4) yn gymwys iddynt, rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) cynnal dadansoddiad cylchred oes mewn perthynas â deunyddiau sy'n debygol o gael eu defnyddio yn lle cynnyrch plastig untro,

(b) asesu costau ac anfanteision newid i ddeunyddiau eraill yn lle cynhyrchion plastig untro, ac

(c) ymgymryd ag asesiad effaith rheoleiddiol.

(3) Wrth gydymffurfio â'u dyletswydd o dan is-adran (2), rhaid i Weinidogion Cymru nodi'n glir sut y mae unrhyw ddadansoddiad ac asesiad yn ymwneud yn benodol â Chymru.

(4) Mae'r is-adran hon yn gymwys i reoliadau o dan yr adran hon a fydd yn diwygio'r Atodlen—

(a) i ychwanegu cynnyrch at golofn 1 o'r Tabl ym mharagraff 1;

(b) i ddileu esemptiad o golofn 2 o'r Tabl ym mharagraff 1;

(c) i ychwanegu diffiniad at baragraff 2, neu i ddileu diffiniad o'r paragraff hwnnw, neu i ddiwygio diffiniad yn y paragraff hwnnw.'.

**Janet Finch-Saunders** **31**

Section 3, page 2, after line 10, insert—

'(2) Before making regulations under this section the Welsh Ministers must carry out such public consultation as they consider appropriate, including but not limited to consultation with groups representing the interests of disabled persons.

(3) For the purposes of subsection (2), disabled person has the meaning given in section 6 of the Equality Act 2010 (c. 15).'.

Adran 3, tudalen 2, ar ôl llinell 10, mewnosoder—

'(2) Cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru gynnal unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus y maent yn ystyried ei fod yn briodol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ymgynghoriad â grwpiau sy'n cynrychioli buddiannau personau anabl.

(3) At ddibenion is-adran (2), mae i "person anabl" yr ystyr a roddir i "disabled person" yn adran 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (p. 15).'.

Explanatory text/Testun esboniadol–

*Ensures the Welsh Government is seeking sound advice before acting.*

*Yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn ceisio cyngor cadarn cyn gweithredu..*

**Delyth Jewell** **64**

Section 4, page 2, after line 17, insert—

'( ) In considering whether to exercise the power in section 3, the Welsh Ministers must take into account emerging trends relating to the use of single-use plastic products.'.

Adran 4, tudalen 2, ar ôl llinell 17, mewnosoder—

'( ) Wrth ystyried pa un ai i arfer y pŵer yn adran 3, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried tueddiadau sy'n dod i'r amlwg sy'n ymwneud â defnyddio cynhyrchion plastig untro.'.

**Janet Finch-Saunders** **32**

Section 4, page 2, line 22, after 'wipes', insert 'and sauce sachets'.

Adran 4, tudalen 2, llinell 22, ar ôl 'weips', mewnosoder 'a bagiau bach o saws'.

**Janet Finch-Saunders** **33**

Section 4, page 2, after line 26, insert—

'(c) to remove any single-use plastic products from column 1 of the Table in paragraph 1 of the Schedule;

(d) to add further exemptions to column 2 of the Table in paragraph 1 of the Schedule.

(3) In setting out information in relation to subsection (2), the Welsh Ministers must consider the extent to which the single-use plastic products and exemptions contained in the Schedule are necessary to tackle the negative impacts from plastic pollution.'.

Adran 4, tudalen 2, ar ôl llinell 26, mewnosoder—

'(c) i ddileu unrhyw gynhyrchion plastig untro o golofn 1 o'r Tabl ym mharagraff 1 o'r Atodlen;

(d) i ychwanegu esemptiadau pellach at golofn 2 o'r Tabl ym mharagraff 1 o'r Atodlen.

(3) Wrth nodi gwybodaeth mewn perthynas ag is-adran (2), rhaid i Weinidogion Cymru ystyried i ba raddau y mae'r cynhyrchion plastig untro a'r esemptiadau sydd wedi eu cynnwys yn yr Atodlen yn angenrheidiol er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau negyddol llygredd plastig.'.

**Janet Finch-Saunders** **34**

Page 2, after line 26, insert a new section—

**'[ ] Publication of guidance**

(1) The Welsh Ministers must issue guidance for those to whom subsection (2) applies in relation to this Act within 3 months of the day on which this Act receives Royal Assent.

(2) This subsection applies to persons that supply single-use plastic products to consumers in Wales.

(3) Guidance issued under subsection (1) must include information on acceptable alternatives to the prohibited single-use plastic products.

(4) Guidance under subsection (1) must include information that explains how the exemptions contained in Table 1 of the Schedule to this Act apply to straws that are single-use plastic products, including how a supplier can be satisfied that they reasonably believe that a person needs the straw for health or disability reasons.

(5) The Welsh Ministers may—

(a) give guidance either generally or to specified descriptions of persons that supply single-use plastic products or in relation to specified descriptions of single-use plastic products;

(b) revise the guidance by giving further guidance under this section;

(c) withdraw the guidance by giving further guidance under this section or by notice.

(6) The Welsh Ministers must publish any guidance or notice under this section.

(7) The Welsh Ministers must take such steps as they think appropriate to promote the published guidance or notice to the attention of persons that supply single-use plastic products.'.

Tudalen 2, ar ôl llinell 26, mewnosoder adran newydd—

**'[ ] Cyhoeddi canllawiau**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i'r rhai y mae is-adran (2) yn gymwys iddynt mewn perthynas â'r Ddeddf hon o fewn 3 mis i'r diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.

(2) Mae'r is-adran hon yn gymwys i bersonau sy'n cyflenwi cynhyrchion plastig untro i ddefnyddwyr yng Nghymru.

(3) Rhaid i ganllawiau a ddyroddir o dan is-adran (1) gynnwys gwybodaeth am opsiynau derbyniol eraill yn lle'r cynhyrchion plastig untro gwaharddedig.

(4) Rhaid i ganllawiau o dan is-adran (1) gynnwys gwybodaeth sy'n esbonio sut y mae'r esemptiadau sydd wedi eu cynnwys yn Nhabl 1 o'r Atodlen i'r Ddeddf hon yn gymwys i wellt sy'n gynhyrchion plastig untro, gan gynnwys sut y gall cyflenwr fod wedi ei fodloni ei fod yn credu yn rhesymol fod angen y gwelltyn ar berson am resymau iechyd neu anabledd.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru—

(a) rhoi canllawiau naill ai yn gyffredinol neu i ddisgrifiadau penodedig o bersonau sy'n cyflenwi cynhyrchion plastig untro neu mewn perthynas â disgrifiadau penodedig o gynhyrchion plastig untro;

(b) diwygio'r canllawiau drwy roi canllawiau pellach o dan yr adran hon;

(c) tynnu'r canllawiau yn ôl drwy roi canllawiau pellach o dan yr adran hon neu drwy hysbysiad.

(6) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi unrhyw ganllawiau neu hysbysiad o dan yr adran hon.

(7) Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd unrhyw gamau y maent yn ystyried eu bod yn briodol i hybu'r canllawiau neu'r hysbysiad cyhoeddedig at sylw personau sy'n cyflenwi cynhyrchion plastig untro.'.

**Janet Finch-Saunders** **35**

Page 2, after line 26, insert a new section—

**'[ ] Duty to prepare, publish and implement Welsh single-use plastics pollution strategy**

(1) The Welsh Ministers must prepare and publish a document setting out their general and specific strategy for contributing to achieving a reduction of single-use plastic pollution in relation to Wales (the "Welsh single-use plastic pollution strategy").

(2) The Welsh single-use plastic pollution strategy must set out what the Welsh Ministers consider to be—

(a) the key priorities,

(b) the risks and opportunities, and

(c) the initiatives,

for reducing single-use plastic pollution in relation to Wales.

(3) The Welsh Ministers may include anything in the Welsh single-use plastic pollution strategy which they consider relevant to achieving a reduction in single-use plastic pollution relation to Wales.

(4) The Welsh Ministers must—

(a) take all reasonable steps to implement the Welsh single-use plastic pollution strategy, and

(b) encourage others to take such steps.

(5) The Welsh Ministers must publish the first Welsh single-use plastic pollution strategy before the end of 12 months starting with the day on which this section comes into force.

(6) The Welsh Ministers must review the Welsh single-use plastic pollution strategy not later than the end of the period of 5 years beginning with the date on which the most recent Welsh single-use plastic pollution strategy was published.

(7) The Welsh Ministers may at any time revise the Welsh single-use plastic pollution strategy.

(8) The Welsh Ministers must publish the Welsh single-use plastic pollution strategy as revised.

(9) When the Welsh Ministers publish the Welsh single-use plastic pollution strategy (or a revised strategy), they must also publish a report summarising—

(a) any consultation that was carried out in preparing the policy, and

(b) any representations that were received as a result of the consultation.'.

Tudalen 2, ar ôl llinell 26, mewnosoder adran newydd—

**'[ ] Dyletswydd i lunio, cyhoeddi a gweithredu strategaeth llygredd plastig untro Cymru**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi dogfen yn nodi eu strategaeth gyffredinol a phenodol ar gyfer cyfrannu at sicrhau gostyngiad mewn llygredd plastig untro mewn perthynas â Chymru ("strategaeth llygredd plastig untro Cymru").

(2) Rhaid i strategaeth llygredd plastig untro Cymru nodi:

(a) y blaenoriaethau allweddol,

(b) y risgiau a'r cyfleoedd, ac

(c) y mentrau,

ym marn Gweinidogion Cymru, ar gyfer lleihau llygredd plastig untro mewn perthynas â Chymru.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru gynnwys unrhyw beth yn strategaeth llygredd plastig untro Cymru y maent yn ystyried ei fod yn berthnasol i sicrhau gostyngiad mewn llygredd plastig untro mewn perthynas â Chymru.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) cymryd pob cam rhesymol i weithredu strategaeth llygredd plastig untro Cymru, a

(b) annog eraill i gymryd camau o'r fath.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r strategaeth llygredd plastig untro Cymru gyntaf cyn diwedd y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y daw'r adran hon i rym.

(6) Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu strategaeth llygredd plastig untro Cymru yn ddim hwyrach na diwedd y cyfnod o 5 mlynedd sy'n dechrau â'r dyddiad y cyhoeddwyd y strategaeth llygredd plastig untro Cymru ddiweddaraf.

(7) Caiff Gweinidogion Cymru, ar unrhyw adeg, ddiwygio strategaeth llygredd plastig untro Cymru.

(8) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi strategaeth llygredd plastig untro Cymru fel y'i diwygiwyd.

(9) Pan fydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi strategaeth llygredd plastig untro Cymru (neu strategaeth ddiwygiedig), rhaid iddynt hefyd gyhoeddi adroddiad yn crynhoi—

(a) unrhyw ymgynghoriad a gynhaliwyd wrth lunio'r polisi, a

(b) unrhyw sylwadau a gafwyd o ganlyniad i'r ymgynghoriad.'.

**Janet Finch-Saunders** **36**

Page 2, after line 26, insert a new section—

**'[ ] Engagement with businesses that supply single-use plastic products to consumers in Wales**

The Welsh Ministers must take such steps that they consider appropriate to engage with persons that supply single-use plastic products to consumers in Wales, including but not limited to encouraging compliance with the Act and consulting on guidance issued under section [*section to be inserted by amendment 34*].'.

Tudalen 2, ar ôl llinell 26, mewnosoder adran newydd—

**'[ ] Ymgysylltu â busnesau sy'n cyflenwi cynhyrchion plastig untro i ddefnyddwyr yng Nghymru**

Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd unrhyw gamau y maent yn ystyried eu bod yn briodol i ymgysylltu â phersonau sy'n cyflenwi cynhyrchion plastig untro i ddefnyddwyr yng Nghymru, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i annog cydymffurfedd â'r Ddeddf ac ymgynghori ar ganllawiau a ddyroddir o dan adran [*adran i'w mewnosod gan welliant 34*].'.

**Janet Finch-Saunders** **37**

Page 2, after line 26, insert a new section—

**'[ ] Promoting public awareness of prohibition of single-use plastic products**

(1) The Welsh Ministers must take steps to promote public awareness of the provisions of this Act.

(2) The Welsh Ministers must take steps to promote public awareness of prospective commencement of changes in relation to prohibited single-use plastic products as a result of making regulations under section 3.

(3) The Welsh Ministers must develop a programme of education and publicity to raise awareness with people in Wales about the principles underpinning this Act and the need to reduce pollution attributed to single-use plastic products.

(4) The awareness campaigns undertaken by the Welsh Ministers under this section must include details of the risk of alternative single-use plastic products that are not prohibited single-use plastic products but are nonetheless considered by the Welsh Ministers to be damaging to the environment.

(5) The awareness campaigns undertaken by the Welsh Ministers under this section must cover the awareness of—

(a) people in Wales,

(b) suppliers of single-use plastic products, and

(c) retailers and other businesses that make supplies to consumers.

(6) In taking steps to promote public awareness under this section, the Welsh Ministers must bring it to the attention of persons who might supply prohibited single-use plastic products to a consumer in Wales.'.

Tudalen 2, ar ôl llinell 26, mewnosoder adran newydd—

**'[ ] Hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r gwaharddiad ar gynhyrchion plastig untro**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau i hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd o ddarpariaethau'r Ddeddf hon.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau i hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r bwriad i gychwyn newidiadau mewn perthynas â chynhyrchion plastig untro gwaharddedig o ganlyniad i wneud rheoliadau o dan adran 3.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru ddatblygu rhaglen addysg a chyhoeddusrwydd i godi ymwybyddiaeth ymhlith pobl yng Nghymru o'r egwyddorion sy'n sail i'r Ddeddf hon ac o'r angen i leihau llygredd a briodolir i gynhyrchion plastig untro.

(4) Rhaid i'r ymgyrchoedd ymwybyddiaeth a gynhelir gan Weinidogion Cymru o dan yr adran hon gynnwys manylion am y risg o gynhyrchion plastig untro amgen nad ydynt yn gynhyrchion plastig untro gwaharddedig ond y mae Gweinidogion Cymru, serch hynny, yn ystyried eu bod yn niweidiol i'r amgylchedd.

(5) Rhaid i'r ymgyrchoedd ymwybyddiaeth a gynhelir gan Weinidogion Cymru o dan yr adran hon gwmpasu ymwybyddiaeth—

(a) pobl yng Nghymru,

(b) cyflenwyr cynhyrchion plastig untro, ac

(c) manwerthwyr a busnesau eraill sy'n gwneud cyflenwadau i ddefnyddwyr.

(6) Wrth gymryd camau i hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ddwyn y broses o hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd at sylw personau a allai gyflenwi cynhyrchion plastig untro gwaharddedig i ddefnyddiwr yng Nghymru.'.

Explanatory text/Testun esboniadol–

*Welsh Government to bear the responsibility of raising awareness of the Bill.*

*Llywodraeth Cymru i fod yn gyfrifol am godi ymwybyddiaeth o'r Bil.*

**Delyth Jewell** **65**

Page 2, after line 26, insert a new section—

**'[ ] Reusable Products Taskforce for Wales**

(1) Within 12 months of the day on which this Act receives Royal Assent, the Welsh Ministers must, by regulations, establish a taskforce to be known as the Reusable Products Taskforce for Wales ("the Reusable Products Taskforce") to carry out the functions listed in subsection (2).

(2) The functions are—

(a) providing advice to the Welsh Ministers on matters relating to the affordability of reusable products that may replace prohibited single-use plastic products,

(b) providing advice to the Welsh Ministers on steps that can be taken to make reusable products more affordable than prohibited single-use plastic products they may replace, and

(c) such other functions as the Welsh Ministers may specify in the regulations.

(3) The Welsh Ministers may, by regulations, make provision—

(a) about the constitution and proceedings of the Reusable Products Taskforce;

(b) about the appointment of members to the Reusable Products Taskforce, including their terms of appointment and whether appointments may be remunerated;

(c) about the resignation and dismissal of members to the Reusable Products Taskforce;

(d) about the general powers of the Reusable Products Taskforce;

(e) adding, amending or removing functions of the Reusable Products Taskforce.

(4) Before making regulations under this section the Welsh Ministers must consult such persons as they consider appropriate.

(5) The Welsh Ministers may refer to the Reusable Products Taskforce any reusable product, including but not limited to—

(a) menstrual products,

(b) reusable nappies, and

(c) wipes.'.

Tudalen 2, ar ôl llinell 26, mewnosoder adran newydd—

**'[ ] Tasglu Cynhyrchion Amldro Cymru**

(1) O fewn 12 mis i'r diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol, rhaid i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, sefydlu tasglu a elwir Tasglu Cynhyrchion Amldro Cymru ("y Tasglu Cynhyrchion Amldro") i gyflawni'r swyddogaethau a restrir yn is-adran (2).

(2) Y swyddogaethau yw—

(a) darparu cyngor i Weinidogion Cymru ar faterion sy'n ymwneud â fforddiadwyedd cynhyrchion amldro y gellir eu defnyddio yn lle cynhyrchion plastig untro gwaharddedig,

(b) darparu cyngor i Weinidogion Cymru ar gamau y gellir eu cymryd i wneud cynhyrchion amldro yn fwy fforddiadwy na chynhyrchion plastig untro gwaharddedig y gellir defnyddio'r cynhyrchion amldro yn eu lle, ac

(c) unrhyw swyddogaethau eraill a bennir gan Weinidogion Cymru yn y rheoliadau.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth—

(a) ynghylch cyfansoddiad a thrafodion y Tasglu Cynhyrchion Amldro;

(b) ynghylch penodi aelodau i'r Tasglu Cynhyrchion Amldro, gan gynnwys eu telerau penodi a pha un a roddir tâl am benodiadau;

(c) ynghylch aelodau sy'n ymddiswyddo o'r Tasglu Cynhyrchion Amldro a diswyddo aelodau ohono;

(d) ynghylch pwerau cyffredinol y Tasglu Cynhyrchion Amldro;

(e) sy'n ychwanegu at swyddogaethau'r Tasglu Cynhyrchion Amldro, yn eu diwygio neu yn eu dileu.

(4) Cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru gyfeirio i'r Tasglu Cynhyrchion Amldro unrhyw gynnyrch amldro, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i—

(a) cynhyrchion mislif,

(b) cewynnau amldro, ac

(c) weips.'.

**Delyth Jewell** **66**

Page 2, after line 26, insert a new section—

**'[ ] Single-use Plastic Awareness and Education Taskforce for Wales**

(1) Within 12 months of the day on which this Act receives Royal Assent, the Welsh Ministers must, by regulations, establish a taskforce to be known as the Single-use Plastic Awareness and Education Taskforce for Wales ("the Awareness and Education Taskforce") to carry out the functions listed in subsection (2).

(2) The functions are—

(a) providing advice to the Welsh Ministers on how prohibition of single-use plastic products can be included within a curriculum designed in accordance with the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021,

(b) providing advice on raising public awareness of this Act,

(c) providing advice in relation to public engagement related to this Act, and

(d) such other functions as the Welsh Ministers may specify in the regulations.

(3) The Welsh Ministers may, by regulations, make provision—

(a) about the constitution and proceedings of the Awareness and Education Taskforce;

(b) about the appointment of members to the Awareness and Education Taskforce, including their terms of appointment and whether appointments may be remunerated;

(c) about the resignation and dismissal of members to the Awareness and Education Taskforce;

(d) about the general powers of the Awareness and Education Taskforce;

(e) adding, amending or removing functions of the Awareness and Education Taskforce.

(4) Before making regulations under this section the Welsh Ministers must consult such persons as they consider appropriate.'.

Tudalen 2, ar ôl llinell 26, mewnosoder adran newydd—

**'[ ] Tasglu Ymwybyddiaeth ac Addysg Plastig Untro Cymru**

(1) O fewn 12 mis i'r diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol, rhaid i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, sefydlu tasglu a elwir Tasglu Ymwybyddiaeth ac Addysg Plastig Untro Cymru ("y Tasglu Ymwybyddiaeth ac Addysg") i gyflawni'r swyddogaethau a restrir yn is-adran (2).

(2) Y swyddogaethau yw—

(a) darparu cyngor i Weinidogion Cymru ar sut y gellir cynnwys gwahardd cynhyrchion plastig untro o fewn cwricwlwm a ddyluniwyd yn unol â Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021,

(b) darparu cyngor ar godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r Ddeddf hon,

(c) darparu cyngor mewn perthynas ag ymgysylltiad â'r cyhoedd sy'n ymwneud â'r Ddeddf hon, a

(d) unrhyw swyddogaethau eraill a bennir gan Weinidogion Cymru yn y rheoliadau.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth—

(a) ynghylch cyfansoddiad a thrafodion y Tasglu Ymwybyddiaeth ac Addysg;

(b) ynghylch penodi aelodau i'r Tasglu Ymwybyddiaeth ac Addysg, gan gynnwys eu telerau penodi a pha un a roddir tâl am benodiadau;

(c) ynghylch aelodau sy'n ymddiswyddo a diswyddo aelodau o'r Tasglu Ymwybyddiaeth ac Addysg;

(d) ynghylch pwerau cyffredinol y Tasglu Ymwybyddiaeth ac Addysg;

(e) sy'n ychwanegu at swyddogaethau'r Tasglu Ymwybyddiaeth ac Addysg, yn eu diwygio neu yn eu dileu.

(4) Cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn ystyried eu bod yn briodol.'.

**Julie James** **8**

Section 5, page 2, after line 28, insert—

'( ) A person of a description referred to in subsection [*existing subsection (1)*] ("P") commits an offence if that person—

(a) supplies (as to which see subsection [*existing subsection (2)*]) a prohibited single-use plastic product to a consumer who is in Wales, and this includes arranging for the delivery of the product to a consumer at an address in Wales;

(b) offers on premises in Wales (as to which see subsection [*subsection to be inserted by amendment 12*] to supply a prohibited single-use plastic product to a consumer.'.

Adran 5, tudalen 2, ar ôl llinell 28, mewnosoder—

'( ) Mae person o ddisgrifiad y cyfeirir ato yn is-adran [*is-adran (1) bresennol*] ("P") yn cyflawni trosedd os yw'r person hwnnw—

(a) yn cyflenwi (ynglŷn â hynny gweler is-adran [*is-adran (2) bresennol*]) gynnyrch plastig untro gwaharddedig i ddefnyddiwr sydd yng Nghymru, ac mae hyn yn cynnwys trefnu i ddanfon y cynnyrch at ddefnyddiwr mewn cyfeiriad yng Nghymru;

(b) yn cynnig mewn mangre yng Nghymru (ynglŷn â hynny gweler is-adran [*is-adran i'w mewnosod gan welliant 12*]) cyflenwi cynnyrch plastig untro gwaharddedig i ddefnyddiwr.'.

**Julie James** **9**

Section 5, page 2, line 29, leave out 'It is an offence for a person ("P") of any of the following descriptions to supply a prohibited single-use plastic product to a consumer in Wales' and insert 'The descriptions of person that may commit an offence under this section are'.

Adran 5, tudalen 2, llinell 29, hepgorer 'Mae'n drosedd i berson ("P") o unrhyw un neu ragor o'r disgrifiadau a ganlyn gyflenwi cynnyrch plastig untro gwaharddedig i ddefnyddiwr yng Nghymru' a mewnosoder 'Y disgrifiadau o berson a all gyflawni trosedd o dan yr adran hon yw'.

**Julie James** **10**

Section 5, page 2, line 36, after 'product,', insert 'or'.

Adran 5, tudalen 2, llinell 38, ar ôl 'cynnyrch,', mewnosoder 'neu'.

**Julie James** **11**

Section 5, page 3, line 1, leave out ', or

(c) offers to sell the product or provide it free of charge'.

Adran 5, tudalen 3, llinell 1, hepgorer ', neu

(c) yn cynnig gwerthu'r cynnyrch neu ei ddarparu am ddim'.

**Julie James** **12**

Section 5, page 3, after line 2, insert—

'( ) P offers to supply a prohibited single-use plastic product if P, or any person accountable to P—

(a) displays the product on the premises, or

(b) otherwise keeps the product on the premises such that it is accessible by, or available to, a consumer at the premises.'.

Adran 5, tudalen 3, ar ôl llinell 2, mewnosoder—

'( ) Mae P yn cynnig cyflenwi cynnyrch plastig untro gwaharddedig os yw P, neu unrhyw berson sy'n atebol i P—

(a) yn arddangos y cynnyrch yn y fangre, neu

(b) fel arall yn cadw'r cynnyrch yn y fangre yn y fath fodd fel ei fod yn hygyrch i ddefnyddiwr, neu ar gael i ddefnyddiwr, yn y fangre.'.

**Janet Finch-Saunders** **38**

Section 5, page 3, after line 13, insert—

'( ) For the purposes of subsection (1), P does not commit an offence by supplying a prohibited single-use plastic product to a consumer in Wales where the consumer collects goods from P's premises that are outside Wales.

( ) Subsection [*first subsection to be inserted by this amendment*] applies even where that customer has, in advance of their collection—

(a) requested or ordered the goods by on-line communication, telephone, text or electronic messaging or post, and

(b) paid for them.'.

Adran 5, tudalen 3, ar ôl llinell 13, mewnosoder—

'( ) At ddibenion is-adran (1), nid yw P yn cyflawni trosedd drwy gyflenwi cynnyrch plastig untro gwaharddedig i ddefnyddiwr yng Nghymru pan fo'r defnyddiwr yn casglu nwyddau o fangre P sydd y tu allan i Gymru.

( ) Mae is-adran [*is-adran gyntaf i'w mewnosod gan y gwelliant hwn*] yn gymwys hyd yn oed pan fo'r defnyddiwr hwnnw, cyn iddo gasglu'r nwyddau—

(a) wedi gofyn am y nwyddau neu eu harchebu drwy gyfathrebu ar-lein, dros y ffôn, drwy neges destun neu electronig neu drwy'r post, a

(b) wedi talu amdanynt.'.

Explanatory text/Testun esboniadol–

*Enables consumers in Wales to buy single-use plastics outside of Wales using click and collect.*

*Yn galluogi defnyddwyr yng Nghymru i brynu plastig untro y tu allan i Gymru drwy ddefnyddio'r cyfleuster clicio a chasglu.*

**Julie James** **13**

Section 5, page 3, line 14, leave out 'arranges for a product to be delivered to a consumer, P supplies the product when it is delivered to the address provided by the consumer.' and insert 'is shown to have arranged for a product to be delivered to a consumer at an address in Wales the product is taken to have been supplied by P to that consumer even if (for whatever reason)—

(a) the product was delivered to a different address, or

(b) the product was not delivered to any known address.'.

Adran 5, tudalen 3, llinell 14, hepgorer 'fo P yn gwneud trefniadau i ddanfon cynnyrch at ddefnyddiwr, mae P yn cyflenwi'r cynnyrch pan fydd y cynnyrch yn cael ei ddanfon i'r cyfeiriad a ddarparwyd gan y defnyddiwr.' a mewnosoder 'ddangosir bod P wedi trefnu i ddanfon cynnyrch at ddefnyddiwr mewn cyfeiriad yng Nghymru cymerir bod y cynnyrch wedi ei gyflenwi gan P i'r defnyddiwr hwnnw hyd yn oed os (am ba reswm bynnag)—

(a) danfonwyd y cynnyrch i gyfeiriad gwahanol, neu

(b) na ddanfonwyd y cynnyrch i unrhyw gyfeiriad hysbys.'.

**Julie James** **14**

Section 5, page 3, line 16, leave out subsection (5).

Adran 5, tudalen 3, llinell 17, hepgorer is-adran (5).

**Janet Finch-Saunders** **39**

Section 5, page 3, after line 18, insert—

'( ) In proceedings for an offence under subsection (1), if P is in possession of prohibited single-use plastic products, it is a defence for P to show that P did not intend to supply prohibited single-use plastic products to consumers in Wales.

( ) P is taken to have shown that P did not intend to supply prohibited single-use plastic products to consumers in Wales if—

(a) sufficient evidence of this is adduced to raise an issue with respect to it, and

(b) the contrary is not proved beyond reasonable doubt.'.

Adran 5, tudalen 3, ar ôl llinell 19, mewnosoder—

'( ) Mewn achos am drosedd o dan is-adran (1), os yw P yn meddu ar gynhyrchion plastig untro gwaharddedig, mae'n amddiffyniad i P ddangos nad oedd P wedi bwriadu cyflenwi cynhyrchion plastig untro gwaharddedig i ddefnyddwyr yng Nghymru.

( ) Cymerir bod P wedi dangos nad oedd P wedi bwriadu cyflenwi cynhyrchion plastig untro gwaharddedig i ddefnyddwyr yng Nghymru—

(a) os dygir tystiolaeth ddigonol o hyn i godi mater yn ei gylch, a

(b) os na phrofir i'r gwrthwyneb y tu hwnt i amheuaeth resymol.'.

Explanatory text/Testun esboniadol–

*Will prevent prosecutions of businesses in possession of single-use plastics but not intending to supply (e.g. with left over stock).*

*Bydd yn atal busnesau rhag cael eu herlyn os ydynt yn meddu ar blastig untro ond nad ydynt yn bwriadu ei gyflenwi (e.e. gyda stoc dros ben).*

**Julie James** **15**

Section 5, page 3, line 27, leave out 'prohibited single-use plastic product' and insert 'single-use plastic product of a kind listed in column 1 of the Table in paragraph 1 of the Schedule'.

Adran 5, tudalen 3, llinell 28, hepgorer 'gwaharddedig' a mewnosoder 'o fath a restrir yng ngholofn 1 o'r Tabl ym mharagraff 1 o'r Atodlen'.

**Julie James** **16**

Section 5, page 3, line 29, leave out 'Act' and insert 'section'.

Adran 5, tudalen 3, llinell 30, hepgorer 'y Ddeddf' a mewnosoder 'yr adran'.

**Delyth Jewell** **67**

Page 3, after line 31, insert a new section—

**'[ ] Offence of manufacturing prohibited single-use plastic product**

(1) A person of a description referred to in subsection (2) ("P") commits an offence if that person manufactures a prohibited single-use plastic product in Wales.

(2) The descriptions of person that may commit an offence under this section are—

(a) a body corporate (including a body exercising any function of a public nature);

(b) a partnership;

(c) an unincorporated association;

(d) a person acting as a sole trader.

(3) A person is accountable to P if—

(a) that person—

(i) is an employee of P,

(ii) has a contract for services with P,

(iii) is an agent of P, or

(iv) is otherwise subject to the management, control or oversight of P, and

(b) that person—

(i) is acting in the course of P's business, trade or profession,

(ii) is acting in relation to the exercise by P of P's functions,

(iii) is acting in relation to P's objects or purposes, or

(iv) is otherwise acting under the management, control or oversight of P.

(4) In proceedings for an offence under subsection (1), an allegation that a product was a prohibited single-use plastic product will be accepted as proved in the absence of evidence to the contrary.'.

Tudalen 3, ar ôl llinell 32, mewnosoder adran newydd—

**'[ ] Y drosedd o weithgynhyrchu cynhyrchion plastig untro gwaharddedig**

(1) Mae person o ddisgrifiad y cyfeirir ato yn is-adran (2) ("P") yn cyflawni trosedd os bydd y person hwnnw yn gweithgynhyrchu cynnyrch plastig untro gwaharddedig yng Nghymru.

(2) Y disgrifiadau o berson a all gyflawni trosedd o dan yr adran hon yw—

(a) corff corfforaethol (gan gynnwys corff sy'n arfer unrhyw swyddogaeth o natur gyhoeddus);

(b) partneriaeth;

(c) cymdeithas anghorfforedig;

(d) person sy'n gweithredu fel unig fasnachwr.

(3) Mae person yn atebol i P—

(a) os yw'r person hwnnw—

(i) yn gyflogai i P,

(ii) â chontract ar gyfer gwasanaethau gyda P,

(iii) yn asiant i P, neu

(iv) fel arall yn ddarostyngedig i reoli, rheolaeth neu oruchwyliaeth P, a

(b) os yw'r person hwnnw—

(i) yn gweithredu yng nghwrs busnes, crefft neu broffesiwn P,

(ii) yn gweithredu mewn perthynas ag arfer swyddogaethau P gan P,

(iii) yn gweithredu mewn perthynas ag amcanion neu ddibenion P, neu

(iv) fel arall yn gweithredu o dan reoli, rheolaeth neu oruchwyliaeth P.

(4) Mewn achos am drosedd o dan is-adran (1), bydd honiad bod cynnyrch yn gynnyrch plastig untro gwaharddedig yn cael ei dderbyn fel ei fod wedi ei brofi yn absenoldeb tystiolaeth i'r gwrthwyneb.'.

**Delyth Jewell** **68**

Section 6, page 3, after line 33, insert—

'(2) A person guilty of an offence under section [*section to be inserted by amendment 67*] is liable on summary conviction to a fine.'.

Adran 6, tudalen 3, ar ôl llinell 34, mewnosoder—

'(2) Mae person sy'n euog o drosedd o dan adran [*adran i'w mewnosod gan welliant 67*] yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.'.

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Janet Finch-Saunders** **40**

Page 3, after line 33, insert a new section—

**'[ ] Review of prohibition of manufacturing prohibited single-use plastic product**

(1) The Welsh Ministers must, within the 5 year period, consider whether to amend this Act to prohibit the manufacture of single-use plastic products in Wales and produce a report outlining its considerations and conclusion.

(2) The Welsh Ministers must publish and lay before Senedd Cymru the report produced in accordance with subsection (1) as soon as reasonably practicable following the end of the 5 year period.

(3) In this section, "the 5 year period" has the meaning given in section 20.'.

Tudalen 3, ar ôl llinell 34, mewnosoder adran newydd—

**'[ ] Adolygu gwahardd gweithgynhyrchu cynnyrch plastig untro gwaharddedig**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru, o fewn y cyfnod o 5 mlynedd, ystyried pa un ai i ddiwygio'r Ddeddf hon i wahardd gweithgynhyrchu cynhyrchion plastig untro yng Nghymru a llunio adroddiad yn amlinellu eu hystyriaethau a'u casgliad.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi a gosod gerbron Senedd Cymru yr adroddiad a lunnir yn unol ag is-adran (1) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y cyfnod o 5 mlynedd.

(3) Yn yr adran hon, mae i "y cyfnod o 5 mlynedd" yr ystyr a roddir yn adran 20.'.

**Delyth Jewell** **69**

Section 7, page 4, line 1, after '5', insert 'or section [*section to be inserted by amendment 67*]'.

Adran 7, tudalen 4, llinell 1, ar ôl '5', mewnosoder 'neu adran [*adran i'w mewnosod gan welliant 67*]'.

**Delyth Jewell** **70**

Section 7, page 4, line 3, after '5', insert 'or section [*section to be inserted by amendment 67*]'.

Adran 7, tudalen 4, llinell 3, ar ôl '5', mewnosoder 'neu adran [*adran i'w mewnosod gan welliant 67*]'.

**Delyth Jewell** **71**

Section 7, page 4, line 5, after '5', insert 'or section [*section to be inserted by amendment 67*]'.

Adran 7, tudalen 4, llinell 6, ar ôl '5', mewnosoder 'neu adran [*adran i'w mewnosod gan welliant 67*]'.

**Janet Finch-Saunders** **41**

Page 4, after line 7, insert a new section—

**'[ ] Duty to ensure sufficient funding of local authorities**

The Welsh Ministers must ensure that a local authority receives sufficient funding to enable the local authority to take such action as it considers necessary as a consequence of the changes to the law made by this Act.'.

Tudalen 4, ar ôl llinell 9, mewnosoder adran newydd—

**'[ ] Dyletswydd i sicrhau cyllid digonol i awdurdodau lleol**

Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod awdurdod lleol yn cael cyllid digonol i alluogi'r awdurdod lleol i gymryd unrhyw gamau y mae'n ystyried eu bod yn angenrheidiol o ganlyniad i newidiadau i'r gyfraith a wneir gan y Ddeddf hon.'.

**Delyth Jewell** **72**

Section 9, page 4, line 15, after '5', insert 'or section [*section to be inserted by amendment 67*]'.

Adran 9, tudalen 4, llinell 16, ar ôl '5', mewnosoder 'neu adran [*adran i'w mewnosod gan welliant 67*]'.

**Janet Finch-Saunders** **42**

Section 9, page 4, after line 19, insert—

'( ) This does not apply to any part of the premises used as a dwelling.'.

Adran 9, tudalen 4, ar ôl llinell 21, mewnosoder—

'( ) Nid yw hyn yn gymwys i unrhyw ran o'r fangre a ddefnyddir fel annedd.'.

Explanatory text/Testun esboniadol–

*Prevents officers entering accommodation which shares an entrance with a business premises.*

*Yn atal swyddogion rhag mynd i mewn i lety sy'n rhannu mynedfa gyda mangre busnes.*

**Janet Finch-Saunders** **43**

Section 10, page 4, line 26, leave out 'wholly or mainly'.

Adran 10, tudalen 4, llinell 29, hepgorer 'yn gyfan gwbl neu'n bennaf'.

**Delyth Jewell** **73**

Section 10, page 4, line 28, after '5', insert 'or section [*section to be inserted by amendment 67*]'.

Adran 10, tudalen 4, llinell 31, ar ôl '5', mewnosoder 'neu adran [*adran i'w mewnosod gan welliant 67*]'.

**Delyth Jewell** **74**

Section 11, page 5, line 5, after '5', insert 'or section [*section to be inserted by amendment 67*]'.

Adran 11, tudalen 5, llinell 6, ar ôl '5', mewnosoder 'neu adran [*adran i'w mewnosod gan welliant 67*]'.

**Delyth Jewell** **75**

Section 13, page 5, line 37, after '5', insert 'or section [*section to be inserted by amendment 67*]'.

Adran 13, tudalen 5, llinell 39, ar ôl '5', mewnosoder 'neu adran [*adran i'w mewnosod gan welliant 67*]'.

**Delyth Jewell** **76**

Section 13, page 6, line 9, after '5', insert 'or section [*section to be inserted by amendment 67*]'.

Adran 13, tudalen 6, llinell 9, ar ôl '5', mewnosoder 'neu adran [*adran i'w mewnosod gan welliant 67*]'.

**Delyth Jewell** **77**

Section 15, page 7, line 11, after '5', insert 'or section [*section to be inserted by amendment 67*]'.

Adran 15, tudalen 7, llinell 10, ar ôl '5', mewnosoder 'neu adran [*adran i'w mewnosod gan welliant 67*]'.

**Delyth Jewell** **78**

Section 17, page 7, line 37, leave out 'offence under section 5' and insert 'offences under sections 5 or [*section to be inserted by amendment 67*]'.

Adran 17, tudalen 7, llinell 38, hepgorer 'drosedd o dan adran 5' a mewnosoder 'troseddau o dan adran 5 neu [*adran i'w mewnosod gan welliant 67*]'.

**Julie James** **17**

Section 20, page 9, line 13, leave out 'means a bag, with or without handles, supplied for the purpose of carrying items sold or provided with the bag (and see also section 1(6))' and insert 'has the meaning given in paragraph 2 of the Schedule'.

Adran 20, tudalen 9, llinell 13, hepgorer 'ystyr "bag siopa" ("carrier bag") yw bag, gydag handlenni neu hebddynt, a ddarperir at ddiben cludo eitemau a werthwyd neu a ddarparwyd gyda'r bag (a gweler hefyd adran 1(6);' a mewnosoder 'mae i "bag siopa" ("carrier bag") yr ystyr a roddir ym mharagraff 2 o'r Atodlen;'.

**Janet Finch-Saunders** **44**

Section 20, page 9, after line 27, insert—

> '"the 5 year period" ("*y cyfnod 5 mlynedd*") means the period of 5 years beginning with the day on which the Act receives Royal Assent.'.

Adran 20, tudalen 9, ar ôl llinell 15, mewnosoder—

> 'ystyr "y cyfnod o 5 mlynedd" ("*the 5 year period*") yw'r cyfnod o 5 mlynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol;'.

**Janet Finch-Saunders** **45**

Page 9, after line 35, insert a new section—

**'[ ] Review of operation of Act**

(1) The Welsh Ministers must, as soon as practicable after the end of the 5 year period, lay before Senedd Cymru a report on the operation and effect of this Act during that period.

(2) The report must include—

(a) the number of prosecutions brought under section 5,

(b) the number of persons found guilty of the offence under section 5, and

(c) the cost of implementing the Act, including but not limited to—

(i) work undertaken to develop the Act,

(ii) the cost of enforcement of offences under this Act, and

(iii) the cost of promoting public awareness, including work undertaken prior to the Act coming into force.

(3) In preparing the report the Welsh Ministers must consult—

(a) local authorities,

(b) persons that supply single-use plastic products, and

(c) such other persons as they consider appropriate.

(4) The Welsh Ministers must publish the report as soon as practicable after it has been laid before Senedd Cymru.

(5) In subsection (1), "the 5 year period" has the meaning given in section 20.'.

Tudalen 9, ar ôl llinell 38, mewnosoder adran newydd—

**'[ ] Adolygu gweithrediad y Ddeddf**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y cyfnod o 5 mlynedd, osod gerbron Senedd Cymru adroddiad ar weithrediad ac effaith y Ddeddf hon yn ystod y cyfnod hwnnw.

(2) Rhaid i'r adroddiad gynnwys—

(a) nifer yr erlyniadau a ddygwyd o dan adran 5,

(b) nifer y personau a gafwyd yn euog o'r drosedd o dan adran 5, ac

(c) y gost o weithredu'r Ddeddf, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol—

(i) gwaith a wnaed i ddatblygu'r Ddeddf,

(ii) y gost o orfodi troseddau o dan y Ddeddf hon, a

(iii) y gost o hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd, gan gynnwys gwaith a wnaed cyn i'r Ddeddf ddod i rym.

(3) Wrth lunio'r adroddiad, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol—

(a) awdurdodau lleol,

(b) personau sy'n cyflenwi cynhyrchion plastig untro, ac

(c) y personau hynny y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r adroddiad cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddo gael ei osod gerbron Senedd Cymru.

(5) Yn is-adran (1), mae i "y cyfnod o 5 mlynedd" yr ystyr a roddir yn adran 20.'.

**Janet Finch-Saunders** **46**

Section 22, page 10, line 2, after 'sections', insert '[*section to be inserted by amendment 28*],'.

Adran 22, tudalen 10, llinell 2, ar ôl 'adrannau', mewnosoder '[*adran i'w mewnosod gan welliant 28*],'.

**Janet Finch-Saunders** **47**

Section 22, page 10, line 2, after '4,', insert '[*section to be inserted by amendment 34*],'.

Adran 22, tudalen 10, llinell 2, ar ôl '4,', mewnosoder '[*adran i'w mewnosod gan welliant 34*],'.

**Janet Finch-Saunders** **48**

Section 22, page 10, line 2, after '4,', insert '[*section to be inserted by amendment 35*],'.

Adran 22, tudalen 10, llinell 2, ar ôl '4,', mewnosoder '[*adran i'w mewnosod gan welliant 35*],'.

**Janet Finch-Saunders** **49**

Section 22, page 10, line 2, after '4,', insert '[*section to be inserted by amendment 36*],'.

Adran 22, tudalen 10, llinell 2, ar ôl '4,', mewnosoder '[*adran i'w mewnosod gan welliant 36*],'.

**Janet Finch-Saunders** **50**

Section 22, page 10, line 2, after '4,', insert '[*section to be inserted by amendment 37*],'.

Adran 22, tudalen 10, llinell 2, ar ôl '4,', mewnosoder '[*adran i'w mewnosod gan welliant 37*],'.

**Janet Finch-Saunders** **51**

Section 22, page 10, line 2, after '4,', insert '[*section to be inserted by amendment 40*],'.

Adran 22, tudalen 10, llinell 2, ar ôl '4,', mewnosoder '[*adran i'w mewnosod gan welliant 40*],'.

**Delyth Jewell** **79**

Section 22, page 10, line 2, after '4,', insert '[*section to be inserted by amendment 65*],'.

Adran 22, tudalen 10, llinell 2, ar ôl '4,', mewnosoder '[*adran i'w mewnosod gan welliant 65*],'.

**Delyth Jewell** **80**

Section 22, page 10, line 2, after '4,', insert '[*section to be inserted by amendment 66*],'.

Adran 22, tudalen 10, llinell 2, ar ôl '4,', mewnosoder '[*adran i'w mewnosod gan welliant 66*],'.

**Janet Finch-Saunders** **52**

Section 22, page 10, line 2, after '21', insert ', [*section to be inserted by amendment 45*],'.

Adran 22, tudalen 10, llinell 2, ar ôl '21,', mewnosoder '[*adran i'w mewnosod gan welliant 45*]'.

**Janet Finch-Saunders** **53**

Section 22, page 10, line 4, leave out 'a day appointed by the Welsh Ministers in an order made by statutory instrument.

(3) An order under subsection (2)—

(a) may make transitional, transitory or saving provision;

(b) may appoint different days for different purposes.'

and insert '1 January 2024.'.

Adran 22, tudalen 10, llinell 4, hepgorer 'ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol.

(3) Caiff gorchymyn o dan is-adran (2)—

(a) gwneud darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed;

(b) pennu diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol'

a mewnosoder '1 Ionawr 2024'.